**EITEM AR YR AGENDA: 9**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16 Medi 2013**

**Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (Cyfnod Adrodd 2012-13)**

**Adroddiad gan Ruth Simmons, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (cyfnod adrodd 2012-13) i ymateb i ofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

## Cefndir

2 Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 i rym ym mis Hydref 2010. Roedd y Ddeddf yn dod yn lle dyletswyddau cydraddoldeb gwahanol yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil, rhywedd ac anabledd a oedd yn Neddf Cysylltiadau Hiliol 1976, Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ymestyn sylw'r Ddyletswydd i nodweddion gwarchodedig eraill, sef oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth, ac ailbennu rhywedd.

3 Mae'r Ddeddf yn gosod Dyletswydd Gyffredinol ar gyrff cyhoeddus rhestredig sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt, wrth gyflawni eu swyddogaethau, dalu sylw dyledus i'r canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;
- hybu perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

4 Yn Ebrill 2011, defnyddiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei phwerau i gyflwyno Dyletswyddau Penodol, wedi eu cynllunio i gynorthwyo tryloywder ac i alluogi awdurdod cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol. Nodir y rhain o fewn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

5 Mae'r Ddyletswydd Benodol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru lunio a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol sy'n nodi cynnydd mewn perthynas ag amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a hwnnw i'w gyhoeddi heb fod yn hwyrach na'r 31$^{ain}$ o Fawrth ymhob blwyddyn. Dylai'r wybodaeth ymdrin â'r flwyddyn ariannol lawn sy'n dod i ben 12 mis cyn y dyddiad terfyn ar gyfer adrodd.

6 Ym mis Mawrth 2013, fe wnaeth y Gwasanaeth gyhoeddi Adroddiad Blynyddol cyntaf y Cynllun Cydraddoldeb am y cyfnod adrodd rhwng 1$^{af}$ Ebrill 2011 a 31$^{ain}$ Mawrth 2012. Yn unol â Chyfarwyddyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, dewiswyd cynnwys cynnydd tuag at gyflawni Amcanion Cydraddoldeb yr Awdurdod yn ystod chwe mis cyntaf y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (h.y. Ebrill – Hydref 2012).

7 Rhaid i'r diweddariad gynnwys y canlynol:

- darpariaethau ymgysylltu a chynnwys ar gyfer grwpiau nodweddion gwarchodedig;
- sicrhau bod deunyddiau cyhoeddedig ar gael yn hawdd;
- asesu effaith arferion a pholisïau perthnasol;
- hyfforddiant, a choladu gwybodaeth am gyflogaeth;
- hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ymysg y gweithwyr ynghylch y Ddeddf;
- mynd i'r afael â gwahaniaethau annheg rhwng cyflogau;
- adolygu cynnydd ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb cysylltiedig;
- darpariaethau arferion caffael.

8 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n rheoleiddio cydymffurfiad â'r ddeddfwriaeth. Rôl y Comisiwn o dan y gyfraith yw amddiffyn, gorfodi a hybu cydraddoldeb. Caiff y rôl ei chyflawni drwy ddarparu gwaith cyfarwyddo, rheoleiddio a gorfodi.

## Gwybodaeth

9 Ar ôl llunio'r adroddiad cyntaf, daeth grŵp Cydraddoldeb Strategol y Gwasanaeth i'r casgliad y byddai'r Gwasanaeth yn elwa petai'r adroddiad yn cael ei lunio yn hydref y flwyddyn adrodd. Byddai hyn yn rhoi cyfle i adrannau sydd ag Amcanion Cydraddoldeb i weithredu newidiadau ac ymgorffori'r newidiadau hynny yn y broses o gynllunio busnes am y flwyddyn ariannol i ddod.

10 Nod hwn, sef yr ail Adroddiad Blynyddol, am flwyddyn adrodd 2012-2013, yw cwrdd â Rheoliad 16 o'r Dyletswyddau Penodol Cymreig, ac mae wedi ei lunio yn unol â thempled cyfarwyddyd adrodd blynyddol Llywodraeth Cymru. Er cysondeb, mae'r adroddiad yn dilyn y Dyletswyddau Penodol Cymreig, ac yn canolbwyntio ar ddata sy'n gysylltiedig â'n gweithgarwch yn ystod yr amserlen osodedig.

11 Wrth ystyried darpariaethau ymgysylltu a chynnwys ar gyfer grwpiau o fewn y grwpiau nodweddion gwarchodedig, mae'r adroddiad yn nodi gwaith Tasglu'r Prif Swyddog Tân yn 2007 (ac a adolygwyd ymhellach yn 2009). Dyma yw'r sbardun o hyd ar gyfer strategaeth diogelwch cymunedol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn perthynas â thargedu diogelwch tân yn y cartref.

12 Roedd Adroddiad Tasglu'r Prif Swyddog Tân yn cael ei arwain gan wybodaeth, ac roedd yn tynnu sylw at yr angen i unigolion bregus yn ein cymunedau gael eu canfod er mwyn rhoi addysg, cyfarpar a chymorth iddynt allu bod yn ddiogel gartref. Mae'r gwaith hwn yn parhau i arwain y camau y mae'r awdurdod wedi eu cymryd i ganfod grwpiau nodweddion gwarchodedig ac ymwneud â nhw, ynghyd â chasglu gwybodaeth berthnasol.

13 Yn ystod 2012 – 2013, defnyddiwyd yr wybodaeth hon i gyrraedd tri nod y ddyletswydd gyffredinol, sef cynnal Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, gwaith Cydlynydd y Sector Gwirfoddol a'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol.

14 Yn gynwysedig yng nghynlluniau busnes 2013-14 mae’r cynnig i gynnal asesiad risg llawn ar gydraddoldeb ymhob un o’r pedwar maes pwysig o gyflwyno gwasanaethau, sef tanau mewn anheddau, gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, llosgi bwriadol ac archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, a hynny er mwyn gweld a yw gweddill y nodweddion gwarchodedig yn gwneud unigolyn/grŵp yn fwy agored i dân oherwydd y nodweddion gwarchodedig hynny. Bydd yr wybodaeth hon yn fodd i’r Gwasanaeth roi mesurau amddiffynnol yn eu lle.

15 Mae cyrraedd y Safon Iechyd Corfforaethol ar Lefel Blatinwm yn golygu rhagor o dystiolaeth mewn perthynas â’r ddyletswydd gyffredinol. Dyfernir y Safon Blatinwm i gyflogwyr sy’n esiampl i eraill ac sy’n dangos bod datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o’u harferion a’u diwylliant busnes, a’u bod yn cyrraedd nodau amgylcheddol a chymdeithasol yr un pryd.

16 Caiff gwybodaeth benodedig am gyflogaeth, sy’n cynnwys hyfforddiant a chyflogau, eu cyflwyno gyda’r data cydraddoldeb ar adeg recriwtio. Mae’r gofyniad i gynnwys gwybodaeth berthnasol arall yn ymgorffori gwaith gwirfoddol megis y Cynllun Cefnogi Cydweithwyr, ac yn ymestyn i drefniadau ar gyfer profiad gwaith, gan gynnwys Lleoliadau Adeiladu Sgiliau.

17 Mae’r cynnydd tuag at gyflawni pob un o’n hamcanion cydraddoldeb wedi ei amlinellu yn yr adroddiad, ynghyd â datganiadau ynglŷn â pha mor effeithiol yw trefniadau’r awdurdod ar gyfer canfod a chasglu gwybodaeth berthnasol.

18 Mae’r Adroddiad Blynyddol atodedig wedi ei anelu at wahanol gynulleidfaoedd, ac mae’n gyfle i fod yn dryloyw ar gyfer ein partneriaid a’r cyhoedd.

## Argymhellion

19 Gofynnir i’r Aelodau:
   (i) nodi cynnwys yr adroddiad;
   (ii) cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-2013 i’w gyhoeddi ar wefan y Gwasanaeth.